Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Y Drenewydd

d/o Ysgol Dafydd Llwyd
Lon Y Blanhigfa
Y Drenewydd, Powys
SY16 1JE

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Y Drenewydd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Y Drenewydd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Y Drenewydd |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Janet Elisabeth Davies |
| Person â gofal | Angharad Evans a Hollie Lloyd -Hughes |
| Nifer y lleoedd | 56 |
| Amrediad oedran y plant | Dwy flwydd oed i pedair blwydd oed. |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 55 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 54 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i Ddydd Gwener 8.30-16.00 – (cynnal addysg 9.00-11.30 /12.30-15.00) |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 17/09/2021 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 23/10/2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/03/2025 |
| Maent yn gwneud defnydd arbennig o grantiau er lles y plant a'r teuluoedd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Parhau i ganolbwyntio ar ddatblygu agweddau o’r amgylchedd er mwyn ehangu ar brofiadau’r plant.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â sut maent yn cynnal partneriaethau cryf sydd yn cael effaith ar y ddarpariaeth o fewn y lleoliad, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r plant yn teimlo’n hapus ac yn hollol ddiogel yn y lleoliad. Maent yn gwybod eu bod yn cael eu parchu gan bob ymarferydd. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac mae ganddynt lais cryf o ran sut maent eisiau defnyddio’r amgylchedd. Er enghraifft, gwnânt gyfraniad sylweddol at yr hyn maent am ei ddysgu a’r ffordd maent yn chwarae. Maent yn dewis eu hadnoddau eu hunain yn annibynnol ac mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau chwarae creadigol. Er enghraifft, maent yn mynd ati i dorri tatws yn y gegin fwd neu’n dewis paentio llun o genhinen bedr. Mae plant yn cyfleu eu hanghenion personol yn effeithiol gan ddatblygu eu ffordd eu hunain o gyfathrebu gan ddefnyddio ystumiau yn lle geiriau, pan fo angen. Y plant sy’n penderfynu ble maent am chwarae, gan ddefnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored yn hynod effeithiol a chreadigol.

Mae plant o bob oed yn setlo'n arbennig o gyflym ar ddechrau bob sesiwn ac yn teimlo'n hollol hapus wrth chwarae'n hyderus ochr yn ochr â'u ffrindiau. Mae bron pob un yn mwynhau eu chwarae ac yn gwneud hynny’n llawn cyffro. Er enghraifft, mae grŵp o blant yn chwerthin a gwichian wrth redeg ar ôl swigod mawr sy’n cael eu creu gan ymarferydd.

Mae plant o bob oed yn rhyngweithio’n hynod effeithiol â'i gilydd ac ymarferwyr. Maent yn dysgu i fod yn amyneddgar, er enghraifft wrth aros eu tro am degan. Mae llawer o’r plant yn hyderus ac yn chwilfrydig am bresenoldeb ymwelwyr gan holi am eu henwau a’u gwahodd i mewn i’w chwarae. Mae’r plant ieuangaf yn dysgu rheolau cymdeithasol y lleoliad a beth sy’n dderbyniol. Er enghraifft, pan mae plentyn yn taflu reis wrth chwarae, mae’n cael ei atgoffa gan ei ffrind i beidio â gwneud.

Mae bron pob un o'r plant yn weithgar ac yn dysgu’n effeithiol drwy chwarae. Maent yn chwilfrydig iawn ac yn arbrofi â diddordeb brwd yn y dŵr a’r tywod. Maent yn mwynhau cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau corfforol, fel cydbwyso wrth gerdded ar hyd unedau pren a blociau meddal i gyrraedd yr ochr arall.

Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn dda iawn. Maent yn helpu eu hunain i fyrbryd o ffrwyth ac yn arllwys llaeth i mewn i gwpan yn annibynnol. Maent hefyd yn cymryd cyfrifoldeb arbennig o dda dros eu hylendid personol ac yn defnyddio’r tŷ bach yn annibynnol drwy gydol y dydd ac yn golchi a sychu eu dwylo’n aeddfed.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae'r rhan fwyaf yn eistedd a gwrando'n dda ac yn arddangos medrau canolbwyntio cadarn wrth drafod dyddiau'r wythnos, sgwrsio am y tywydd a'u teimladau. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau dysgu defnyddio iaith arwyddo syml wrth ganu yn ystod y sesiwn. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio iaith briodol i drafod wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, maent yn mwynhau sgwrsio am sut i greu cawl, gan ddefnyddio geirfa addas yn hyderus. Mae bron pob un o'r plant yn defnyddio geiriau Cymraeg ar gyfer rhifau a lliwiau. Maent yn dangos diddordeb mewn llyfrau, yn dilyn storïau ac yn ymateb yn aeddfed. Mae bron pob un yn arbrofi gyda chreu marciau drwy ddefnyddio amrywiaeth o wrthrychau a'u rheoli'n fedrus Maent yn datblygu eu medrau corfforol yn gadarn gan ddefnyddio cyfarpar chwarae mawr a bach gyda rheolaeth dda. Er enghraifft, maent yn gwthio cerbydau mawr o amgylch y llawr ac yn defnyddio gratiwr caws i gratio sebon llithrig yn fedrus.

Mae bron pob un o'r plant yn dewis a defnyddio cyfarpar mathemategol priodol i ddatrys problemau ymarferol. Maent yn defnyddio iaith fathemategol mewn cyd-destunau pwrpasol yn aeddfed. Er enghraifft, maent yn arddangos dealltwriaeth dda o faint a'r cysyniad o fawr a bach wrth drafod maint y llysiau i greu cawl yn y gegin fwd. Mae bron pob un yn cyfri i fyny at 16 yn hyderus yn y Gymraeg wrth gyfri sawl plentyn sy'n eistedd gyda'i gilydd yn ystod amser cylch. Maent yn cyfri'n gywir o 1 i 5 ac i lawr o 5 i 0 pan fyddant yn canu rhigymau rhif.

Mae bron pob un yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei chwarae ac yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnod estynedig wrth arbrofi a dangos dyfalbarhad. Er enghraifft, maent yn defnyddio morthwyl yn fedrus i ryddhau'r ffrwythau o'r ciwbiau rhew a thorri'r llysiau gan ddefnyddio cyllell neu siswrn i greu cawl. Mae bron pob un o'r plant yn arddangos medrau digidol da iawn. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r glorian ddigidol i bwyso'r llysiau ac yn defnyddio'r ffôn i ddynwared siarad â chwsmer yn y siop.

Mae bron pob un o'r plant yn arddangos medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol cadarn ac maent yn arddangos cwrteisi tuag at eraill. Maent yn arddangos medrau annibynnol cryf. Er enghraifft, maent yn llwyddo i wisgo eu cotiau'n annibynnol yn barod ar gyfer mynd i chwarae tu allan, ac yn tywallt llaeth neu ddŵr eu hunain yn ystod amser byrbryd.

## Gofal a datblygiad: Rhagorol

Mae ymarferwyr yn cefnogi iechyd a lles plant yn effeithiol iawn. Maent yn ymateb yn gydwybodol i amrywiaeth fuddiol o weithgareddau dysgu proffesiynol, a hynny'n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygiad y plant. Maent yn rhoi'r polisïau ar waith yn hynod effeithiol. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth ragorol o ran diogelu plant. Maent yn deall beth i'w wneud os oes ganddynt bryderon am ddiogelwch plentyn ac yn gweithredu'n brydlon, pan fo angen. Mae ymarferwyr yn cymryd sylw arbennig o bob agwedd ar hylendid. Er enghraifft, maent yn gwisgo menig a ffedogau i baratoi byrbrydau, ac yn annog plant i fwyta ac yfed yn iach ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol. Maent yn sicrhau y caiff unrhyw alergeddau ac anghenion dietegol eu cofnodi er mwyn sicrhau y gall pob un o'r plant fwynhau eu prydau bwyd yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion clir ac effeithiol ar yr hyn mae'r plant yn ei gyflawni'n ddyddiol ac yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â rhieni yn gyson. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn fodelau rôl rhagorol. Mae ganddynt berthynas arbennig o agos â'r plant ac maent yn eu cyfarch mewn modd hapus a chariadus wrth iddynt gyrraedd y lleoliad. Maent yn rhoi digon o amser iddynt ymgartrefu gan groesawu rhieni a gofalwyr i ddod i mewn i'r ystafell er mwyn chwarae am gyfnod cyn ymadael. Mae hyn yn helpu'r plant i ymgartrefu'n arbennig o effeithiol. Mae ymarferwyr yn ymddwyn mewn modd meddylgar, hamddenol ac addfwyn yng nghwmni'r plant. Maent bob amser yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ac yn trin y plant mewn modd tyner a gofalgar. Maent yn cefnogi'r plant yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn llwyddiannus dros ben. Maent yn siarad â'r plant mewn modd sensitif ac yn eu canmol yn effeithiol am wneud eu gorau ac am lwyddo â'u tasgau. Mae hyn yn annog y plant i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Mae ymarferwyr yn cadw llygad barcud ar anghenion y plant. Er enghraifft, maent yn sylwi'n syth pan mae plentyn yn teimlo'n hwylus am ryw reswm. Maent yn rhyngweithio'n hynod gelfydd ac yn gwybod yn reddfol pryd i gamu'n ôl a rhoi cyfle i'r plant ddarganfod pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, maent yn adnabod sgema plant, ac o ganlyniad, yn darparu gweithgareddau i hybu hyn yn dda iawn.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn arbennig o effeithiol, gan ddefnyddio hiwmor ac anogaeth yn barhaus. Maent yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn dangos balchder ac angerdd wrth drafod cyflawniadau. Mae taflenni gwybodaeth 'amdanaf fi' ar gael yn yr ystafell sydd yn sicrhau bod pob ymarferydd yn dod i adnabod y plant yn dda. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn mynd i'r afael ag anghenion unigol bob plentyn yn hyderus, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ganddynt bartneriaeth gynhyrchiol iawn â rhieni. Maent yn cynnal trafodaethau cyson a thrylwyr am anghenion a chyflawniad eu plant. O ganlyniad, mae gan ymarferwyr a rhieni ddealltwriaeth gadarn o gryfderau ac anghenion y plant.

Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol iawn ar y gofal ac ar ddatblygiad pob unigolyn.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r plant a dealltwriaeth hynod gadarn o'u datblygiad. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn deall y camau datblygiadol nesaf sydd eu hangen arnynt. Maent yn defnyddio eu gwybodaeth am ddiddordebau'r plant yn llwyddiannus ar gyfer cynllunio gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn ymgysylltu'n llwyr am gyfnodau estynedig ac yn gwneud cynnydd cadarn iawn yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio amrediad rhagorol o gyfleoedd i'r plant ddysgu am eu cymuned a'u cynefin lleol. Maent yn trefnu ymweliadau rheolaidd â'r siopau cyfagos ac yn ymweld â'r parc gerllaw er mwyn mwynhau byd natur yn yr awyr agored. Trefnir ymweliadau â'r ysgolion yn yr ardal er mwyn i'r plant ddod yn gyfarwydd a hwyluso'r broses o drosglwyddo, maes o law. Nodwedd arbennig yw'r cyfleoedd i'r plant ymweld â'r cartref henoed lleol, sy'n gyfle gwerthfawr iddynt ddatblygu eu medrau personol, cymdeithasol ac emosiynol a dechrau datblygu i fod yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus.

Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant gymryd risgiau priodol wrth chwarae yn yr ardaloedd. Er enghraifft, maent yn ychwanegu adnoddau fel cyllyll i dorri llysiau yn y gegin fwd, a morthwyl i dorri ciwbiau iâ. Mae hyn yn caniatáu i'r plant ddatblygu hyder wrth ddefnyddio eu medrau corfforol ac i ymgysylltu'n llwyr yn y chwarae.

Mae'r profiadau dysgu yn hybu chwilfrydedd y plant yn dda iawn ac yn llwyddo i ddenu sylw pob plentyn am gyfnodau estynedig. Mae ymarferwyr yn cynllunio'n effeithiol ar gyfer dilyniant ym medrau'r plant. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd a rhifedd cynnar y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n gadarn. Mae ymarferwyr yn asesu cynnydd y plant yn fedrus ac yn ychwanegu adnoddau'n gelfydd er mwyn eu herio i ddatblygu eu gwahanol fedrau ymhellach. Maent yn annog y plant i ddyfalbarhau ar dasgau yn fedrus trwy holi cwestiynau pen agored i hyrwyddo'r chwarae, ac o ganlyniad, mae'r plant yn ymgolli'n llwyr yn eu gweithgareddau.

Mae ymarferwyr yn fodelau iaith arbennig o dda. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant glywed geirfa a phatrymau safonol y Gymraeg drwy siarad a chanu. O ganlyniad, mae bron pob un o'r plant yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llafar Cymraeg o oedran cynnar.

Caiff cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol eu hyrwyddo yn dda iawn drwy ddewis o lyfrau, pypedau, lluniau o deuluoedd gwahanol a dillad gwisgo fyny. Maent yn creu cyfleoedd da iawn i'r plant ddathlu achlysuron fel Dydd Sant Padrig a'r Flwyddyn Newydd Tsieneaidd.

## Yr amgylchedd: Da

Mae gan arweinwyr fesurau, polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da iawn y tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae arferion hylendid yn gyson dda, sy'n lleihau'r risgiau i iechyd bob un. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel trwy gwblhau a blaenoriaethu asesiadau risg amrywiol yn hynod o effeithiol, ac maent yn eu hadolygu'n gyson. Maent yn ystyried risgiau pob gweithgaredd, er enghraifft wrth baratoi ar gyfer ymweliad gan amryw anifeiliaid anwes. Mae cymarebau rhwng ymarferwyr a phlant bob amser yn addas ym mhob ardal. Mae'r holl ardaloedd chwarae yn ddiogel ac yn darparu amrywiol fannau chwarae i'r plant, gan gynnwys ardaloedd cysgodol, pan fo'u hangen. Gan fod y drysau'n agored i'r plant yn barhaus, ac mae ganddynt y rhyddid i grwydro o un man i'r llall, mae arweinwyr yn sicrhau bod lefelau uchel o oruchwylio a chyfathrebu da i sicrhau bod pawb yn ddiogel.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn groesawgar, yn gynnes ac mewn cyflwr arbennig o dda. Mae ystod eang o ddodrefn ac adnoddau eraill o ansawdd neilltuol ar gael o fewn cyrraedd y plant sy'n ysgogi eu diddordebau a'u dychymyg yn barhaus. Caiff cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol eu hyrwyddo drwy ddewis o lyfrau, pypedau a dillad gwisgo fyny. Mae'r ardaloedd tu mewn wedi'u trefnu'n dda a'u cyflwyno gyda gofal, gan gynnig cyfleoedd pwrpasol i'r plant. Mae hyn yn darparu profiadau dysgu cyfoethog i blant mewn gwahanol ystafelloedd, gan eu hannog i fod yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus. Mae'r ardaloedd awyr agored yn ddiogel ac yn darparu amrywiol lecynnau chwarae o amgylch yr adeilad ar gyfer pob ystafell. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cynnig sawl cyfle creadigol i blant, fel chwarae gyda mwd, tywod, dŵr ac offer adeiladu. Mae ymarferwyr yn sicrhau eu bod yn darparu profiadau dysgu cyfoethog a chyson i'r plant. Dewisant adnoddau yn ofalus er mwyn ymateb i ddiddordebau a syniadau'r plant. Maent yn cynnwys dewis helaeth o adnoddau 'go iawn' a naturiol fel llestri, bwyd a choed o wahanol faint. Mae ymarferwyr yn ychwanegu at ac yn datblygu'r amgylchedd yn barhaus i sicrhau bod y plant yn dod yn chwilotwyr chwilfrydig yn eu hamgylchedd.

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd yn sbarduno dychymyg y plant ac yn cynnig profiadau amrywiol iddynt. Er enghraifft, mae'r plant yn cael cyfleoedd i chwarae'n ddychmygus, yn ogystal â man cysurus i ymlacio ar adegau tawel.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol

Mae arweinwyr wedi llwyddo i gynnal ethos cryf iawn o deulu lle mae pob unigolyn yn cael ei werthfawrogi ac yn teimlo'n hyderus i rannu syniadau er budd y plant. Maent yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu yn ennyn ymgysylltiad y plant yn llawn ac mae ymdeimlad o berthyn yn sail i holl waith y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn brofiadol iawn ac yn cydweithio'n arbennig o effeithiol fel tîm, gan rannu gweledigaeth gref a gosod disgwyliadau uchel iawn iddynt eu hunain.

Maent yn cydymffurfio â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol. Maent yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn ac wedi sefydlu systemau rhagorol ar gyfer sefydlu ymarferwyr newydd. Mae arweinwyr yn rheoli a goruchwylio bob ymarferydd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cael hyfforddiant o ansawdd da iawn er mwyn diwallu eu hanghenion. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn wybodus iawn am eu dyletswyddau a'u rolau ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant pawb yn y lleoliad.

Mae ganddynt systemau cryf a chynaliadwy sy'n eu galluogi i gynnal a datblygu gwaith y lleoliad yn llwyddiannus a chyson. Maent yn adolygu gweithdrefnau'n rheolaidd er mwyn gwerthuso'r effaith ar brofiadau a chynnydd y plant. Maent yn creu amserlen realistig ar gyfer unrhyw welliannau sydd angen eu cyflwyno. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cynnwys yr holl randdeiliaid ac yn arwain at gynllun datblygu sy'n cynnwys camau pendant ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth, ynghyd â cherrig milltir pwrpasol er mwyn mesur cynnydd.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd arbennig o dda o'u cyllid a grantiau penodol. Er enghraifft, buddsoddwyd cyllid i ariannu ymarferydd ychwanegol er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn medru derbyn oriau ychwanegol ar gyfer gofal dydd.

Elfen gref o'r lleoliad yw'r ystod o bartneriaethau cryf sydd wedi eu sefydlu a'r dylanwad maent yn ei gael ar ddatblygiad a lles y plant. Mae ganddynt gysylltiadau cryf â rhieni ac maent yn rhannu gwaith y lleoliad mewn cylchlythyr tymhorol. Maent wedi creu sied Clwb Cwtsh lle mae'r rhieni'n medru benthyg adnoddau fel llyfrau, gemau, neu ddillad. Mae arweinwyr yn gweithio'n arbennig o dda gyda'r ysgolion lleol ac mae ganddynt systemau pontio effeithiol iawn. O ganlyniad, mae'r plant yn teimlo'n hyderus ar drothwy'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae arweinwyr yn cydweithio'n agos iawn â swyddog datblygu'r awdurdod lleol a mudiadau ymbarél. Gwneir defnydd helaeth o'r gymuned leol sydd yn helpu'r ymarferwyr i gynllunio profiadau dysgu gwerthfawr i'r plant. Er enghraifft, mae'r plant yn ymweld â chartref yr henoed yn rheolaidd ac yn diddanu'r henoed drwy ganu, chwarae gemau a rhannu storïau. O ganlyniad, mae'r plant yn datblygu ymdeimlad cryf iawn o berthyn ac yn creu cysylltiadau gwerthfawr yn eu cymuned leol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/05/2025